**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020 am 10.00am.

Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Angela Pring - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**Swyddogion yn bresennol:-**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys
Mrs Sarah Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau

**72 Datgan Buddiant / Gwrthdaro Buddiannau / Cyfrinachedd**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Cadarnhawyd cyfrinachedd y trafodaethau

**73 Cofnodion y Bwrdd Pensiwn**

Cytunodd Aelodau'r Bwrdd y byddai cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn o'r 13 Hydref 2020 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2021.

Parhaodd Aelodau'r Bwrdd i adolygu cofnodion Bwrdd Pensiwn RhCT o 5 Awst 2020 a **CHYTUNWYD** cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar y canlynol:

**Cofnod 57**

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd y byddai'n cadarnhau a oedd y ffigur o 98% yn dal yn gywir o ran lefelau cyllido'r Gronfa Bensiwn.

**Cofnod 67**

Nododd Aelodau'r Bwrdd wall a nodwyd y dylai'r frawddeg ddweud: "A discussion took place on the risk register for WPP and the development _*of*_ the risk register was welcomed".

**74 Materion sy'n Codi:**

**<u>Cofnod 64 - Materion sy'n Codi</u>**

**Cofnod 40 –**

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
fod materion archwilio mewnol sy'n ymwneud â chyfarfod wedi'i gynllunio gyda Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn i drafod meysydd â ffocws posibl yn dal i fod heb eu datrys. Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o drefnu'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion hefyd wedi bod polisi gweithio gartref y Cyngor wedi'i weithredu'n llwyddiannus hyd yma, fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gall fod anawsterau gweithredol, er enghraifft, hyfforddi staff newydd. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr aelodau y byddai'n cadarnhau'r dyddiad cychwyn ar gyfer y Prentisiaid newydd ac yn rhoi adborth i'r Bwrdd yn unol â hynny.

**Cofnod 50 –**
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod proses 2019/20 mewn perthynas â Therfynau Treth Lwfans Pensiynau wedi dod i ben yn ddiweddar.

**Ymatebion o ran I-connect**
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion, yn unol â chais gan y Pwyllgor Pensiwn, bod llythyr wedi'i anfon i'r Cyflogwyr hynny sydd eto i fynd yn fyw ar I-Connect, sy'n yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio erbyn 31 Mawrth 2021. Nodwyd bod y Bwrdd yn cefnogi'r cam gweithredu hwn yn ffurfiol gan ei ystyried yn hanfodol bod cynnydd gyda'r mater hwn yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl.

**Cofnod 52**
**Adroddiad Llywodraethu Blynyddol**
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth y Bwrdd na fu diweddariad mewn perthynas â chanlyniadau'r arolwg llywodraethu blynyddol hyd yn hyn.

**Cofnod 57**
**Lefelau cyllido'r Gronfa Bensiwn**
Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod y lefelau cyllido wedi bownsio yn ôl ers hynny ac yn ddiweddar maent wedi gweld cynnydd pellach. Sicrhawyd aelodau’r bwrdd fod y farchnad wedi adfer yn sylweddol ers dechrau’r pandemig COVID-19 ym mis Mawrth, er yn anochel roedd yna lawer o ffactorau yn achosi ansicrwydd ym marchnadoedd y byd

**<u>Cofnodion Bwrdd Pensiwn RhCT - 5 Awst 2020.</u>**
**<u>Materion sy'n Codi:</u>**
**Cofnod 66**
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth y Bwrdd y byddai'n dosbarthu gwybodaeth i aelodau mewn perthynas ag effaith bosibl COVID-19 ar gyfraddau marwolaeth aelodau'r cynllun.

**Cofnod 68**
Nodwyd bod cynhadledd Bwrdd Powys yn dal i gael ei rhestru yng nghofrestr sgiliau a gwybodaeth y Byrddau fel un a gynhelir ym mis Mawrth 2020 a bod angen diwygio hyn.

**Cofnod 71**
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y byddai'r CCB yn cael ei gynnal ar-lein.

Nodwyd bod y gair *“Professor*” wedi cael ei sillafu’n anghywir a chytunwyd y

byddai hyn yn cael ei newid.

**Pwyntiau Gweithredu - 5 Awst 2020.**
**Materion sy'n Codi:**
**Cofnod 68- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd digwyddiadau Pensiwn yn fater parhaus.**

**Cofnod 70** - Dywedwyd wrth aelodau'r bwrdd y byddant yn derbyn diweddariad ar McCloud o dan eitem 8 ar yr agenda.

**Cofnod 71** - Cadarnhawyd y bydd y CCB yn rhithwir ac y bydd calendr o gyfarfodydd yn cael ei gylchredeg yn fuan ynghyd â chofnodion y Gronfa Bensiwn.

**75 Panel Ymgynghori - Buddsoddi a Gweinyddu**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 28 Medi 2020.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
fod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi cynyddu o £3,350 miliwn (31 Mawrth 2020) i £3,905 miliwn (30 Mehefin 2020). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2020 oedd 4.1%, gan ragori ar feincnod penodol y cynllun, sef 12.5%.

Hysbyswyd yr aelodau bod dogfen gwmpasu wedi'i chreu i adnewyddu'r astudiaeth atebolrwydd gyfredol a gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd gael golwg ar y ddogfen. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion i gylchredeg hyn i'r aelodau.

Cyfeiriwyd aelodau'r bwrdd at ffigurau perfformiad tair blynedd rheolwyr gweithredol a chyfeiriwyd hwy hefyd at gyflwyniad Baillie Gifford a CBRE. Esboniodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod portffolio eiddo CBRE yn rhy fawr yn y sector diwydiannol ac mai'r disgwyl oedd lleihau daliadau ym maes manwerthu lle bo hynny'n bosibl. Bu peth trafodaeth ar y portffolio eiddo yng nghyd-destun risg

O ran sgiliau a gwybodaeth, hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y Bwrdd fod y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Powell wedi ymuno â Phwyllgor y Gronfa Bensiwn fel Aelod newydd o'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd hyfforddiant pensiwn priodol yn cael ei ddarparu i'r aelod newydd.

Cafwyd trafodaethau a rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd o ran trefniadau llywodraethu. Hysbyswyd y Bwrdd fod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddiwygio taliadau ymadael mewn Llywodraeth Leol a bod yr ymgynghoriad yn cau ar 9 Tachwedd 2020. Gofynnodd y Cadeirydd i'r canlyniadau gael eu rhannu gyda'r Bwrdd maes o law.

O ran Prisiad Diwedd Blwyddyn 2019, nodwyd bod gwaith lwfans blynyddol yn cael ei gwblhau ac y bydd datganiadau cynilo yn cael eu cyhoeddi erbyn 6 Hydref. Nodwyd hefyd bod datganiadau budd blynyddol gweithredol a gohiriedig yn cael eu cyhoeddi ac yn bodloni'r dyddiad cau statudol a bod yr ymarfer prisio GAD yn ddyledus ar hyn o bryd. O ran cyflawni'r dyddiad datganiadau budd, diolchodd y Bwrdd i'r staff am eu hymdrechion yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth y Bwrdd fod diwrnod sefydlu corfforaethol RhCT wedi'i gynnal ar-lein a bod y Gwasanaeth Pensiwn yn cymryd rhan. Cadarnhawyd hefyd bod y fforwm cyfathrebu wedi'i gynnal ar-lein ym mis Gorffennaf.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod I-connect yn parhau i gael ei gyflwyno a bod y Cyflogwyr hynny sydd eto i'w weithredu wedi cael dyddiad dechrau diwygiedig ar ddiwedd Mawrth 2021.

Yna cyfeiriwyd Aelodau o'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion mai adnoddau oedd y rheswm am yr eithriadau o ran perfformiad.

Diweddarodd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli’r Gronfa Bensiwn a’r Trysorlys y Bwrdd ar adroddiad cynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru a thrafodwyd hefyd y newid cyfyngiad arfaethedig ym Model Gogledd America a gyflwynwyd gan Baillie Gifford.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod y wybodaeth sydd wedi'i diweddaru.

**76 Monitro Risg**

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd McCloud yn cael effaith ar rwymedigaethau a bod y gofrestr wedi'i diwygio i adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad.

Hysbyswyd y Bwrdd fod y gofrestr risg wedi'i diwygio i adlewyrchu;

- Adolygiad prisio 2020;
- Lansio'r is-gronfa llog sefydlog ym mis Gorffennaf 2020;
- Datblygiad parhaus is-gronfeydd Partneriaeth Pensiynau Cymru;
- Yr oedi wrth drosglwyddo'r portffolio ecwiti goddefol a reolir gan BlackRock i'w gynnyrch buddsoddi carbon isel - 'ACS World Low Carbon Equity Tracker Fund'
- Canlyniad ymgynghoriad McCloud

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**77 Cydgyfrannu Cymru Gyfan**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiynau Cymru.

**78 Fframwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r cynllun hyfforddi ar gyfer mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi i'w hychwanegu at y rhestr at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion.

Mewn perthynas â hyfforddiant Aelodau Bwrdd Powys, cadarnhawyd bod y Cadeirydd, Rob Whiles a David Francis yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

**79 Llywodraethu - Diweddariad o ran Covid**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y cynllun parhad busnes a llywodraethu a sefydlwyd o ganlyniad i amgylchiadau COVID.

Hysbyswyd aelodau'r bwrdd fod COVID-19 yn sicr wedi cael effaith, o ran perfformiad gweithredol a'r gallu i hyfforddi a datblygu'r tîm. Fodd bynnag, sicrhawyd aelodau'r Bwrdd fod gwaith recriwtio i'r Gwasanaeth yn mynd rhagddo, a fydd yn helpu i ateb y gofynion cynyddol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd y CCB a'r fforwm cyfathrebu yn dal i fynd ymlaen fel y cynlluniwyd.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**80 Materion Deddfwriaethol a Gweinyddol**

- **McCloud**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth y Bwrdd fod McCloud wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau, ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Hysbyswyd aelodau'r bwrdd bod tîm prosiect mewnol wedi'i sefydlu'n benodol i ddelio â goblygiadau McCloud a bod y tîm yn symud ymlaen i gipio data gan Gyflogwyr y Gronfa.

- **Cap ar Gostau**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cap ar gostau Partneriaeth Pensiynau Cymru.

- **Taliadau Ymadael**

Diweddarwyd y Bwrdd mewn perthynas â'r cap ymadael o £95k, a chlywodd yr Aelodau bod cytundebau bellach ar y gweill i gwblhau'r ddeddfwriaeth. Bu peth trafodaeth ar effaith hyn ar adnoddau gweinyddol tra bod yr agweddau yn gwrthdaro rhwng y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Trysorlys. Ar hyn o bryd roedd deddfwriaeth y cynllun yn destun ymgynghoriad a dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd ymateb ymgynghoriad y Gronfa yn cael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd pan fydd yn barod. Pwysleisiwyd hefyd y bydd Cyflogwyr y Gronfa yn cael eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad deddfwriaethol.

**81 Unrhyw Faterion Eraill**

Cadarnhawyd eto y bydd y CCB yn cael ei gynnal ar-lein a chadarnhawyd hefyd y bydd cyd-gyfarfod y Pwyllgor Bwrdd Pensiwn yn cael ei gynnal ar 22 Mawrth 2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:20pm.**

**Yr Athro H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**